



GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

SWROD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Cymraeg

**Adolygiad Blynyddol
Annual Review**

2008-09

Cynnwys Contents

Rhagair	5	Foreword
Blaenoriaethau Strategol Bwrdd yr Iaith Gymraeg	11	The Welsh Language Board's Strategic Priorities
Gweledigaeth a Gwerthoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg	16	The Welsh Language Board's Vision and Values
Y Bwrdd	18	The Board
Neges y Prif Weithredwr	25	Message from the Chief Executive
Crynodeb Gweithredol	29	Executive Summary
Twf	37	Twf
Addysg	41	Education
Pobl Ifanc	47	Young People
Cymunedau	51	Communities
Y Sector Preifat	55	The Private Sector
Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol	59	The Public and Voluntary Sectors
Partneriaid	65	Partners
Ar Hyd ac ar Led	68	Far and Wide
Y Tîm	75	The Team
Datganiad Ariannol Cryno	78	Summary Financial Statement
Atodiadau	85	Annexes





Meri Huws
Cadeirydd_Chair

Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adolygiad Blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2008-09. Drwy ddarllen y ddogfen hon, cewch gipolwg teg a chytbwys ar waith y Bwrdd dros y cyfnod adrodd. Rwy'n siŵr y byddwch yn synnu at amrediad ein holl waith, ac at yr hyn oll a gyflawnwyd gan y Bwrdd a'i bartneriaid.

Ar ddechrau'r ddogfen, rydym wedi rhestru blaenoriaethau strategol y Bwrdd, a hefyd ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. Wedyn ceir crynodeb gweithredol o'r wyth prif adran sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar ein gwaith.

Yn yr adran gyntaf, rhoddir sylw i'n prif gynllun, Twf, sy'n ceisio perswadio rhieni i siarad Cymraeg â'u plant, ac i ddewis addysg a gofal cyfrwng Cymraeg iddyn nhw o'r cychwyn cyntaf. Yn yr ail adran, rydym yn canolbwyntio ar addysg, y maes sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf dros y degawdau diwethaf tuag at wella sefyllfa'r Gymraeg o ran nifer ei siaradwyr. Wedyn, trown at bobl ifanc. Mae cynyddu defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc, yn enwedig y tu allan i furiau'r dosbarth, wedi bod yn un o'n prif flaenoriaethau ers y dechrau. Mae ein gwaith gyda chymunedau hefyd yn brif flaenoriaeth, ac, yn ystod y cyfnod

Foreword

I am very pleased to present the Welsh Language Board's Annual Review for 2008-09. By reading this document, you will get a fair and balanced view of the Board's work during the reporting period. I'm sure that you will be surprised at the extent of our work, and by all that has been achieved by the Board and its partners.

At the beginning of the document, we have listed the Board's strategic priorities, and our mission and values. There then follows an executive summary of the eight main sections that relate to different aspects of our work.

In the first section, we concentrate on our main project, Twf, which seeks to persuade parents to speak Welsh with their children, and to choose Welsh medium education and care facilities for them from the start. In the second section, we focus on education, the field which has made the greatest contribution over the past decades to improving the position of the Welsh language, so far as numbers of speakers are concerned. Then we turn to young people. Increasing their use of Welsh, especially outside school, has been a priority for the Board from the outset. Working with communities is also a priority of ours, and, during the reporting

adrodd, cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol i drafod effaith mudo ar y Gymraeg yn gymunedol. Da oedd clywed cyflwyniadau yn y gynhadledd gan Weinidogion y Llywodraeth, gan gynrychiolwyr o Lywodraeth Leol, gan academyddion ac arbenigwyr, a chan asiantaethau eraill, gan gynnwys Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yn dilyn y gynhadledd, sefydlodd y Bwrdd grŵp gweithredu i gynllunio rhaglen waith yn y maes.

Maes blaenoriaeth cynyddol bwysig yw'r sector preifat. Dyma'r sector sy'n cael yr effaith mwyaf, efallai, ar fywydau pob dydd defnyddwyr y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, lansiodd Templed Polisi Iaith gennym i helpu busnesau i fesur a rheoli eu defnydd o'r Gymraeg, a da yw gallu adrodd fod dros 70 o fusnesau wedi mabwysiadu Polisi Iaith ffurfiol yn ystod chwe mis cyntaf y cynllun.

Yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, mae ein gwaith statudol penodol gyda Chynlluniau Iaith Gymraeg yn parhau. Rydym hefyd yn dal i roi pwyslais arbennig ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac ar annog pobl i ddefnyddio'n llawn y gwasanaethau Cymraeg sydd eisoes ar gael. Wedyn, ceir adran sy'n crynhoi ein holl waith gyda'n prif bartneriaid.

period, a national conference was held to discuss the effects of migration on Welsh as a community language. It was good to listen to presentations by Government Ministers, by representatives of Local Government, by academics and experts, and by other agencies, including the Welsh Language Society. Following the conference, the Board established an action group to draw up a work programme within this policy area.

Another increasingly important priority field is the private sector. This is the sector that has the greatest effect, perhaps, on the everyday lives of those who speak Welsh. During the reporting period, we launched a Language Policy Template to help businesses measure and manage their use of Welsh. I am pleased to report that over 70 businesses have already adopted a formal Language Policy during the scheme's first six months.

In the public and voluntary sectors, our statutory work with Welsh Language Schemes continues. We are also continuing to emphasise the importance of increasing the use of Welsh in the workplace, and on encouraging people to make full use of those Welsh language services that are available. Then there is a section which summarises our work with

Heb eu hymrwymiad hwy dros y blynyddoedd, ni fyddai'r hyn yr oedd y Bwrdd am ei weld yn digwydd wedi gallu dwyn ffrwyth. Ac yn olaf, rydym yn cyfeirio'n benodol at ein gwaith cynhaliol ar dechnoleg gwybodaeth; terminoleg a chyfieithu; data ac ymchwil; ac ar y llwyfan rhyngwladol.

Yn ddi-os, prif ddigwyddiad y cyfnod adrodd o ran y Gymraeg yn gyffredinol oedd cyflwyno drafft o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol sy'n ceisio rhoi hawl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu ar y Gymraeg, egwyddor y mae pawb i'w weld yn cytuno arni. Roedd hyn yn dilyn addewid gan Lywodraeth y Cynulliad yn y ddogfen Cymru'n Un i gyflwyno deddfwriaeth newydd o blaid yr iaith. Wrth i Bwyllgor Deddfwriaeth yn y Cynulliad a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan graffu ar y Gorchymyn drafft, gwahoddwyd y Bwrdd i roi tystiolaeth yn y ddau le. Rwy'n falch iawn fod y ddau bwyllgor wedi cymryd cryn sylw o'n tystiolaeth wrth gyflwyno eu hargymhellion i'r Llywodraeth.

Yr hyn a ddywedodd y Bwrdd oedd ein bod am weld deddfwriaeth bellach ar y Gymraeg, yn bennaf am ein bod yn credu nad yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ddigonol

our main partners. Without their commitment over the years, the work which the Board wished to see taking place could never have happened. And finally, we refer specifically to our supportive work in information technology; terminology and translation; data and research; and on the international scene.

So far as the Welsh language is concerned, there is no doubt that the main event during the reporting period was the presentation of the draft Legislative Competence Order which seeks to allow the National Assembly for Wales to legislate on the Welsh language, a principle that everyone seems to agree on. This appeared in the wake of the commitment by the Assembly Government in its One Wales document to bring forward new legislation to support the Welsh language. As a Legislation Committee at the National Assembly and the Welsh Affairs Select Committee in Westminster scrutinised the draft Order, the Board was invited to give evidence in both places. I am very pleased that both committees took due notice of our evidence in presenting their recommendations to the Government.

What the Board said was that we wished to see further legislation on the Welsh language, principally because we believe that the Welsh Language Act 1993 is no longer adequate. We regularly receive



Meri Huws
Cadeirydd_Chair

bellach. Rydym yn derbyn cwynion yn rheolaidd o dan y Ddeddf hon, ac yn ymchwilio iddyn nhw a gwneud argymhellion ar gyfer cywiro gwendidau. Ond o dan y ddeddfwriaeth bresennol, cyfyngedig yw'r amgylchiadau lle gall y Bwrdd gynnig argymhellion, ac felly hefyd y pwerau i orfodi newid. Yn ogystal, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes gan aelodau'r cyhoedd na'r Bwrdd yr hawl i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn corff cyhoeddus am fethu â darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld beth fydd cynnwys y ddeddfwriaeth arfaethedig; ein gobaith yw y bydd hi'n cryfhau'r holl sail ddeddfwriaethol a gweithredol sy'n cynnal yr iaith, er mwyn creu Cymru wirioneddol ddwyieithog.

Dymunaf ddiolch, fel pob amser, i'n holl bartneriaid am eu cydweithrediad a'u gwaith dygn; i Meirion Prys Jones a'i dîm yn arbennig am eu diwydrwydd, eu proffesiynoldeb, a'u hymrwymiad i'w gwaith; ac i'm cyd-aelodau am eu cefnogaeth a'u cyngor parod.

Meri Huws
Cadeirydd

complaints under this Act, and we inquire into them and make recommendations to correct shortcomings. But under the present legislation, those circumstances in which the Board can make recommendations are restricted, as are our powers to enforce change in the light of those recommendations. In addition, under the present legislation, neither members of the public nor the Board have a right to take legal steps against public bodies for failing to provide a Welsh language service.

We are keenly looking forward to seeing what the proposed legislation will contain; our hope is that it will strengthen the entire legal and operational basis which supports the language, in order to create a truly bilingual Wales.

Finally, I should like as always to thank our partners for their co-operation and hard work; Meirion Prys Jones and his team especially for their diligence, professionalism, and commitment to their work, and my fellow-members for their willing advice and support.

Meri Huws
Chair

Blaenoriaethau Strategol Bwrdd yr laith Gymraeg

The Welsh Language Board's Strategic Priorities

Ymestyn dylanwad Cynlluniau laith (eiriol dros siaradwyr Cymraeg – sicrhau cydymffurfiaeth)

- Mae Cynlluniau laith yn hwyluso defnydd gweithredol o'r Gymraeg yn y sefydliadau sy'n meddu arnynt. O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, Cynlluniau laith Gymraeg yw ein prif ddull statudol i normaleiddio'r Gymraeg.
- Byddwn yn defnyddio ein rôl statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chynlluniau laith gan gynnal Ymchwiliadau (o dan Adran 17 Deddf yr laith Gymraeg 1993) i ddiffyg cydymffurfiaeth lle bo'n briodol.
- Byddwn yn anelu at fanteisio ar bob cyfle arall i hyrwyddo statws a defnydd y Gymraeg, e.e. drwy sicrhau bod trydydd partion yn cydymffurfio â Chynlluniau laith sefydliadau sy'n comisiynu gwaith ganddynt.

Polisiau laith Gymraeg (i fusnesau)

- Prif ffocws y Bwrdd yn y sector preifat yw cydweithio er mwyn cytuno Polisiau laith Gymraeg. Mae'r polisiau hyn yn cynorthwyo busnesau i fesur, rheoli a chynyddu eu defnydd

Extending the influence of Language Schemes (advocating on behalf of Welsh speakers – ensuring compliance)

- Language Schemes facilitate active use of Welsh in the organisations that possess them. Under current legislation, Welsh Language Schemes are our main statutory means in normalising the use of Welsh.
- We will exercise our statutory role in order to ensure compliance with Language Schemes, holding Investigations (under Section 17 of the Welsh Language Act 1993) where appropriate.
- We will aim to exploit every opportunity to promote the status of the Welsh Language and its use, e.g. by ensuring that third parties comply with the Language Schemes of organisations that commission work from them.

Welsh Language Policies (for businesses)

- The Board's main focus in the private sector is agreeing Welsh Language Policies. These policies help businesses to measure, manage and increase their use of Welsh.

o'r Gymraeg. Mae'r templed a'r canllawiau sy'n gefn i'r polisiau hyn yn dod ag eglurdeb a symlrwydd i faes sydd yn aml yn un newydd i reolwyr a staff.

Addysg

- Heb gyflenwad parhaol o siaradwyr newydd, bydd iaith yn crebachu ac yn colli tir. Mae ymchwil annibynnol i'r galw am addysg Gymraeg yn dangos bod canran uwch o rieni yn dymuno addysg Gymraeg i'w plant, na'r ganran bresennol o ddisgyblion yn y gyfundrefn.
- Byddwn yn gweithio'n strategol gyda'r sector addysg i gynllunio ar gyfer diwallu'r gofyn cynyddol sydd am leoedd ysgol ar gyfer siaradwyr newydd o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd.
- Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r sector addysg ar sut i wella lefel sgiliau pobl ifanc, fel eu bod yn meddu ar sgiliau addas i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Teuluoedd a'r gymuned

- Mae trosglwyddo iaith o fewn y teulu yn allweddol ar gyfer parhad iaith. Diffyg trosglwyddo iaith fu'n bennaf gyfrifol am leihad nifer siaradwyr y

The template and supporting guidance brings consistency and simplicity to what is often a new area for business managers and staff.

Education

- Without a constant supply of new speakers, a language will contract and lose ground. Independent research into the demand for Welsh medium education shows a higher percentage of parents aspiring to a Welsh medium education for their children, than the current percentage of pupils in the system.
- We will work strategically with the education sector to plan to meet the increasing need for new school places for new speakers from both Welsh and non-Welsh speaking homes.
- We will work in partnership with the education sector to increase the skill levels of young people, so that they possess the skills to work through the medium of Welsh.

Families and the community

- Language transmission in the family is crucial for a language to continue. A lack of intergenerational language transmission has been the main cause of the reduction

Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif. Byddwn yn sicrhau bod ein hadnoddau, boed yn staff neu fel arall, yn gweithredu i atgyfnerthu trosglwyddo iaith lle bynnag y bo modd.

Ieuenctid (cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc)

- Rhaid rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae gwaith ymchwil y Bwrdd a'n gwaith gyda phobl ifanc yn dangos patrymau defnydd iaith cymysg yn ystod llencyndod.
- Bydd y Bwrdd yn cydweithio er mwyn canfod a manteisio ar gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddylanwadu ar ddefnydd iaith pobl ifanc. Bydd y Bwrdd yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol sy'n berthnasol i'w bywydau hwy, er enghraifft, chwaraeon a cherddoriaeth gyfoes.

Gwaith llorweddol: Ymchwil, Technoleg Gwybodaeth, Y Ganolfan Safoni Termau, Ewrop, Marchnata

- Byddwn yn seilio holl waith y Bwrdd ar ymchwil ffeithiol, gadarn, ac yn gweithio i gynyddu

in the number of Welsh speakers during the twentieth century. We will ensure that our resources, staff or otherwise, will work to reinforce language transmission wherever possible.

Youth (increasing the use of Welsh among young people)

- Opportunities must be provided for young people to use Welsh.
- The Board's research work and field work with young people has made us aware of the mixed patterns of language use which can occur during the teenage years.
- We will cooperate to identify and exploit opportunities, both formal and informal, to influence young people's language use. The Board will work to increase opportunities for young people to use Welsh in social contexts that are relevant to their lives, for example, sports and contemporary music.

Cross-cutting work: Research, Information Technology, The Centre for the Standardisation of Terminology, Europe, Marketing

- All the Board's work will be based on factual and reliable research, and we will aim to constantly

nifer yr ymchwilwyr cymwys ym myd cynllunio ieithyddol.

- Er mwyn i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith mewn sefyllfaoedd newydd, bydd y Bwrdd yn gweithio i ddatblygu terminoleg safonol.
- Mae ymchwil yn dangos bod hyder a hunan-gred siaradwyr Cymraeg yn eu sgiliau iaith yn gallu bod yn isel a bod hyn, yn ei dro, yn gallu arwain at ddiffyg trosglwyddiad iaith. Mae angen cymorth ar bobl i fedru mwynhau defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd, ac yn y gweithle. Ein gwaith yn y maes hwn yw darparu termau safonol ac offer priodol iddynt wneud hynny.
- Trwy rwydweithiau Ewropeaidd, byddwn yn rhannu'n profiadau â sefydliadau tramor ac yn hybu gweithredu ar sail arferion da.

build capacity of researchers in the field of language planning.

- Standard terminology is necessary in order for Welsh speakers to be able to use their language in new situations.
- Research shows that the confidence and self-belief of Welsh speakers in their linguistic skills can be low and that this, in turn, can lead to a reduction in language transmission. People need assistance to enable them to enjoy using Welsh in unfamiliar situations, and in the workplace. Our work in this area will provide them with standardised terms and appropriate tools.
- Through European networks, we will share our experiences with organisations overseas and operate on the basis of good practice.



Mr Antoni Mir i Fullana
Cyfarwyddwr – Linguamón:
Tŷ'r Ieithoedd
Director – Linguamón:
House of Languages

Gweledigaeth a Gwerthoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Nod

Gweithio er lles a dyfodol yr iaith Gymraeg.

Gweledigaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Rydym ni am weld:

- Cymru gwbl ddwyieithog lle mae'r Gymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.
- cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur.
- pobl Cymru yn parhau i ymfalchïo yn y Gymraeg.
- siaradwyr Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth a phrosesau hwylus i ddysgwyr ddysgu'r Gymraeg.
- y Bwrdd yn parhau i arloesi, arbenigo ac arwain ym maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru ac yn fyd-eang, ac yn seilïo'i weithgareddau ar dystiolaeth.

The Welsh Language Board's Vision and Values

Mission

To work for the future benefit of the Welsh language.

The Welsh Language Board's Vision

We want:

- a fully bilingual Wales where Welsh and English are treated equally.
- more people to choose to use Welsh whenever possible.
- the people of Wales to continue to be proud of the Welsh language.
- Welsh speakers to transmit Welsh from generation to generation and make it easier for learners to learn Welsh.
- the Board to be an innovative organisation which continues to lead the way in language planning both in Wales and worldwide, basing its activities on evidence.

Gwerthoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Wrth weithio er lles a dyfodol yr iaith Gymraeg, mae'r Bwrdd yn sefydliad sy'n:

- gweithio'n broffesiynol ac i safon uchel
- teg a chwrtais gan roi cyfle cyfartal i bawb
- annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth
- dangos parch at farn a safbwyntiau pobl a sefydliadau eraill
- parod i wrando
- dysgu'n barhaus
- gweithio'n agored ac yn dryloyw
- gwerthfawrogi a pharchu ein staff
- cymryd gofal o'r amgylchedd.

The Welsh Language Board's Values

Whilst working for the future benefit of the Welsh language, the Board will be an organisation which is:

- professional and will work to a high standard
- fair and courteous and ensuring equal opportunity for all
- supportive of collaboration and working in partnerships
- respectful of the opinion and perspective of other individuals and organisations
- willing to listen
- continuously learning
- open and transparent
- appreciative and respectful of its staff
- mindful of the environment.

Y Bwrdd

Statudol

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gorff statudol ar 21 Rhagfyr 1993, gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Bwrdd drwy grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chaiff ei waith ei asesu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â thargedau mesuradwy. Ceir asesiad o berfformiad y Bwrdd yn erbyn targedau 2008-09 yn Atodiad 1.

Swyddogaethau craidd y Bwrdd yw:

- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Cynghori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Ysgogi a goruchwylio'r broses o baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg.
- Rhoi grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith.
- Cadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg.

Aelodaeth

Penodir aelodau'r Bwrdd gan Weinidog dros Dreftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ddechrau'r cyfnod adrodd, roedd gan y Bwrdd 11 aelod. Fe'u penodwyd am y cyfnod 1 Ebrill 2007 tan 31 Mawrth 2010.

The Board

Statutory

The Welsh Language Board was established as a statutory body on 21 December 1993, by the Welsh Language Act 1993. Most of the Board's funding comes from a grant from the Welsh Assembly Government, and the Board's work is assessed annually by the Welsh Assembly Government against quantifiable targets. An assessment of the Board's performance measured against the targets for 2008-09 may be found in Annex 1.

The Board's five core functions are:

- Promoting and facilitating the use of the Welsh language.
- Advising on, and influencing issues relating to the Welsh language.
- Initiating and overseeing the process of preparing and operating Welsh Language Schemes.
- Distributing grants for promoting and facilitating the use of the language.
- Maintaining a strategic overview of Welsh language education.

Membership

Board members are appointed by the Welsh Assembly Government Minister for Heritage. At the beginning of the reporting period, the Board had 11 members. They were appointed for the period 1 April 2007 to 31 March 2010.



Yr aelodau yn ystod y cyfnod adrodd oedd:

Meri Huws (Cadeirydd)

Cyfarwyddwr Sgiliau, Arloesi a Chymuned, Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin

Nick Bennett

Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Cymru

Owen Evans

Cyfarwyddwr dros Gymru, Busnes yn y Gymuned

Gwyneth Morus Jones

Cyn-lywydd Cenedlaethol Merched y Wawr a chyn-Gadeirydd Mudiad Ysgolion Meithrin

Huw Jones

Ymgynghorydd Annibynnol a chyn-Brif Weithredwr S4C (1994-2005)

Dr Arun Midha

Cyfarwyddwr Busnes a Chynllunio, Ysgol Addysg Ôl-raddedig Feddygol a Deintyddol, Coleg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd

Marc Phillips

Pennaeth Cymru, Cronfa Plant Mewn Angen y BBC

Catherine Rees

Dirprwy Brif Weithredwr, Menter a Busnes

Rhiannon Walters

Athrawes Fro, Cyngor Sir Powys

Here is a full list of the members during the reporting period:

Meri Huws (Chair)

Director of Innovation, Skills and Community, Trinity University College, Carmarthen

Nick Bennett

Chief Executive, Community Housing Wales

Owen Evans

Director for Wales, Business in the Community

Gwyneth Morus Jones

Former National President of Merched y Wawr and former Chair of Mudiad Ysgolion Meithrin

Huw Jones

Independent Consultant and former Chief Executive, S4C (1994-2005)

Dr Arun Midha

Director of Business and Planning, School of Postgraduate Medical and Dental Education, Cardiff University School of Medicine

Marc Phillips

National Head of BBC Children in Need in Wales

Catherine Rees

Deputy Chief Executive, Menter a Busnes

Rhiannon Walters

Athrawes Fro [Community Teacher], Powys County Council

Yr Athro Colin Williams

Athro Ymchwil mewn Sosioieithyddiaeth, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Elin Wyn

Rheolwr cwmni hyfforddiant newyddiadurol a chyfryngol

Mae disgwyl i'r Cadeirydd neilltuo dau ddiwrnod yr wythnos i faterion y Bwrdd, gyda'r aelodau'n neilltuo dau ddiwrnod y mis.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu canllawiau priodol ar arferion gweithredu da, yn unol â Chod Arferion Gorau'r Llywodraeth i Aelodau Byrddau. Rydym hefyd yn cadw cofrestr o ddiddordebau allanol yr aelodau. Mae copïau o'r rhain ar gael drwy wneud cais i swyddfeydd y Bwrdd.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgor Archwilio, a sicrhau bod trefniadau cymwys yn eu lle ar gyfer archwilio. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd pedwar aelod i'r Pwyllgor Archwilio, sef Huw Jones (Cadeirydd), Arun Midha, Owen Evans a Catherine Rees. Gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod ddwywaith yn ystod y cyfnod, ar 17 Mehefin 2008 a 30 Ionawr 2009.

Professor Colin Williams

Research Professor in Sociolinguistics, School of Welsh, Cardiff University

Elin Wyn

Manager of a training company which provides journalistic and media training

The Chair is expected to devote two days a week to Board matters, with the members devoting two days a month.

The Board has adopted appropriate guidelines on good practices, in accordance with the Government's Code of Best Practices for Members of Boards. We also keep a register of members' external interests. Copies of these are available on request from the Board's offices.

The Board is required to establish an Audit Committee, and to ensure that appropriate audit arrangements are in place. During the reporting period, there were four members of the Audit Committee, namely Huw Jones (Chair), Arun Midha, Owen Evans and Catherine Rees. Two meetings were held during the period, on 17 June 2008 and 30 January 2009.

Cyfarfodydd

Rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009 cynhaliodd y Bwrdd bedwar cyfarfod agored yn:

- **Caernarfon;**
20 Mehefin 2008
- **Llandysul;**
26 Medi 2008
- **Pen-y-bont ar Ogwr;**
28 Tachwedd 2008
- **Machynlleth;**
6 Mawrth 2009

Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod caeedig yng Nghaerdydd ar 27 Tachwedd 2008 i drafod ceisiadau grant. Cyhoeddir manylion pob cyfarfod agored ymlaen llaw ar wefan y Bwrdd.

Os ydych am wybod rhagor am y Bwrdd, neu am unrhyw agwedd o'n gwaith, cysylltwch â ni:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Ffôn: 029 2087 8000

Ffacs: 029 2087 8001

e-bost: post@byig-wlb.org.uk

Gwefan: www.byig-wlb.org.uk

Meetings

Between April 2008 and March 2009 the Board held four open meetings at:

- **Caernarfon;**
20 June 2008
- **Llandysul;**
26 September 2008
- **Bridgend;**
28 November 2008
- **Machynlleth;**
6 March 2009

Also, a closed meeting was held in Cardiff on 27 November 2008 to discuss applications for grant. Details of all open meetings are announced in advance on the Board's website.

If you would like to know more about the Board, or on any aspect of our work, contact us:

Welsh Language Board

Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff
CF10 1AT

Phone: 029 2087 8000

Fax: 029 2087 8001

e-mail: post@byig-wlb.org.uk

Web: www.byig-wlb.org.uk





Meirion Prys Jones
Prif Weithredwr_Chief Executive

Neges y Prif Weithredwr

Ar ddiwedd fy mhumed blwyddyn yn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, hoffwn yn gyntaf ddiolch o galon i'r staff, a hefyd i holl bartneriaid y Bwrdd, am eu hymlyniad i'w gwaith, eu dygnwch a'u hyblygrwydd. Bu sawl cyfnod o ansicrwydd yn ein hanes diweddar, a gallasai sefyllfa o'r fath fod wedi menu'n drwm ar ein gwaith a'n perfformiad, ond da yw nodi na ddigwyddodd hynny o gwbl. Ac ni allaf ond canmol diwydrwydd y staff wrth eu gwaith, a'u dyfalbarhad wrth wynebu pob sialens.

Dyma, mi wn, fydd eu hagwedd wrth wynebu'r sialensiau nesaf a ddaw yn sgil cyflwyno deddfwriaeth newydd ar y Gymraeg gan Lywodraeth y Cynulliad. I'r rhan fwyaf o'm cydweithwyr, mae gweithio i'r Bwrdd yn fwy na job o waith: mae'n genhadaeth hefyd. Hynny yw, maent am weld y Gymraeg yn ffynnu; maent am weld dyfodol disglair iddi; maent am ei gweld yn goroesi wrth i Gymru wirioneddol ddwyieithog gael ei chreu. A'u prif gwestiwn pan grybwyllir unrhyw newid yw, a fydd y Gymraeg ar ei helw?

Fy ngobaith innau yw y bydd unrhyw newidiadau tuag at y dyfodol yn gwneud y gorau o brofiad helaeth a gwybodaeth drylwyr staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y maes cynllunio

Message from the Chief Executive

At the end of my fifth year as Chief Executive of the Welsh Language Board, I should first like to thank my staff, and also all the Board's partners, for their commitment to their work, their industry and their flexibility. We have faced a number of periods of uncertainty during our recent history, and this could have had a negative effect on our work and performance. I am glad to be able to say this was not the case at all. In consequence, I have nothing but praise for my staff's hard work and for their perseverance in facing every challenge.

I know too that this will be their attitude as they face further challenges when new legislation on the Welsh language is presented by the Welsh Assembly Government. For most of my co-workers, working for the Board is more than just a job: to them, it is also a mission. They want to see the Welsh language prospering; they want to see a bright future for the language; they want to see the language survive so that a truly bilingual Wales may be created. And their main question as any change is proposed will be whether this will benefit the Welsh language.

I truly hope that any future changes will take full advantage of the wide experience and thorough knowledge presented by the Welsh Language Board's staff in the field of language

ieithyddol, arbenigrwydd sydd wedi ennill parch a chlod yn rhyngwladol ymhlith y sawl sy'n ceisio adfer a chefnogi ieithoedd lleiafrifol eraill. Bu'n fraint i'r Bwrdd sefydlu'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol, sydd bellach ar waith ar draws Ewrop, gyda'r Bwrdd yn ei gadeirio ac yn darparu'r ysgrifenyddiaeth iddo. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n holl bartneriaid Ewropeaidd sydd wedi ymuno â'r Rhwydwaith, ac sy'n cyfrannu i'w waith arloesol.

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn rhoi syniad da iawn i chi o'r hyn y mae'r Bwrdd yn ei gyflawni'n ymarferol ar draws sawl maes. Fe welwch mai ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg y mae'r prif bwyslais yn ein holl waith, a gallaf eich sicrhau y bydd hynny'n parhau. Mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu ac yn ehangu ym mhob sector, ond ofer yw hyn oni bai fod cynnydd cyfatebol mewn defnydd yn digwydd maes o law, wrth i siaradwyr y Gymraeg fynnu eu hawl i'w defnyddio'n ogystal. Dyma hefyd yw'r sialens i'n partneriaid: nid yn unig i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, ond hefyd i'w marchnata'n rhagweithiol.

Yn ogystal â'n prosiectau a holl rychwant gwaith ein partneriaid a

planning. I know that this expertise has earned great respect and praise internationally among those who are seeking to support and restore other minority languages. It was an honour for the Board to establish the Network to Promote Linguistic Diversity, which now operates across Europe. The Board chairs the Network, and provides its secretariat. I should like to take this opportunity to thank all our European partners who have joined the Network, and who are contributing to its innovative work.

This Annual Review offers you a good overview of what the Board has achieved in practice across several fields achieved across several fields. You will notice that the main emphasis of our entire work is on increasing Welsh language usage, and I can ensure you that this emphasis will persist. The opportunities to use Welsh are increasing; they are also expanding in every sector. However, it would be retrogressive if we do not witness in due course a corresponding increase in usage, as those who speak Welsh increasingly invoke their right to use it as well. This is also the challenge for our partners: not only to provide services in Welsh, but also to market them proactively.

In addition to our own projects and the wide range of work which our

ariannir gennym trwy grant, mae'r Bwrdd hefyd yn ceisio darparu cyngor mewn sawl maes polisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn arbennig i Lywodraeth y Cynulliad. Rydym yn wir yn gwerthfawrogi'r ddyletswydd hon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, rydym wedi cynorthwyo'r Llywodraeth â'r gwaith o lunio drafft o fframwaith polisi ar gyfer y Gymraeg; rydym hefyd wedi ei chynghori ar y Strategaeth Addysg Gymraeg sydd newydd ei chyhoeddi, strategaeth y byddwn yn ymateb yn llawn iddi yn y man. Bu i ni hefyd, ar gais y Llywodraeth, sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gyflwyno argymhellion ar gyfer sefydlu Canolfan Safoni Termau Genedlaethol. Ein gobaith yw y bydd y Llywodraeth cyn hir yn rhoi sêl ei bendith ar sefydlu'r Ganolfan hon, er mwyn codi statws y Gymraeg gyfuch â statws ieithoedd lleiafrifol eraill yn Ewrop, megis y Gatalaneg a'r Fasgeg.

Wrth gloi, hyderaf y cewch fwynhad o ddarllen y ddogfen hon, a chofiwch gysylltu â ni os gallwn eich cynorthwyo neu'ch cynghori ar unrhyw agwedd o'n gwaith.

Meirion Prys Jones
Prif Weithredwr

grant aided partners perform, the Board also seeks to provide advice on several policy fields relating to the Welsh language, particularly to the Welsh Assembly Government. This is a duty which we truly appreciate. During the past year, for example, we have assisted the Government in the work of drafting a policy framework for the Welsh language; we have also advised the Government on the Welsh Language Education Strategy which has just been released, and we shall be making a full response to this in due course. Also, at the Government's request, we set up a Task and Finish Group to present recommendations for establishing a National Centre for the Standardisation of Terminology. Our hope is that the Government will soon approve the establishment of this Centre so that the status of the Welsh language is raised to the same level as other minority languages in Europe, such as Catalan or Basque.

In conclusion, I trust that you will enjoy reading this document, and get in touch with us by all means if we can help or advise you on any aspect of our work.

Meirion Prys Jones
Chief Executive



Crynodeb Gweithredol

Executive Summary

Corff statudol yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlwyd ar 21 Rhagfyr 1993. Ei brif swyddogaeth yw hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg. Noddir y Bwrdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn asesu ei waith yn flynyddol yn unol â thargedau penodol. Meri Huws yw Cadeirydd y Bwrdd ac mae 10 aelod arall iddo. Meirion Prys Jones yw'r Prif Weithredwr, ac mae ef yn arwain tîm o dros 73 o staff sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, ond yn bennaf yn ein tair prif swyddfa: yng Nghaerdydd, Caernarfon a Chaerfyrddin. Dyma rai o'r uchafbwyntiau a restrir yn adrannau'r Adolygiad Blynyddol hwn.

Twf

- Dosbarthwyd pecynnau mamolaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r Gymraeg, i rai o gyflogwyr mwyaf Cymru.
- Lanswyd hysbyseb deledu 'Y Gymraeg – anrheg am byth' i bwysleisio negeseuon Twf.
- Parhaodd y gwaith craidd o gysylltu â rhieni newydd a darpar rieni er mwyn cynnig cyngor a chefnogaeth ar drosglwyddo'r Gymraeg.

The Welsh Language Board is a statutory body established on 21 December 1993. Its main function is to promote and facilitate the use of the Welsh language. The Board is sponsored by the Welsh Assembly Government, which assesses its work annually in accordance with specific targets. Meri Huws is the Chair of the Board; it has 10 other members. Meirion Prys Jones is the Chief Executive, and he leads a team of over 73 staff located across Wales, but principally in our three main offices in Cardiff, Caernarfon and Carmarthen. Here are some of the highlights from the sections of this Annual Review.

Twf

- Maternity packs were distributed, containing information on the advantages of transmitting Welsh, to some of Wales' biggest employers.
- A television advert 'Pass on the Gift of Welsh' was launched to highlight Twf's main messages.
- The core work of contacting new and prospective parents, to provide advice and support on language transmission, continued.

Addysg

- Derbyniodd tri awdurdod addysg lleol gymeradwyaeth i'w hail Gynllun Addysg Gymraeg; bellach mae 14 awdurdod addysg lleol wedi derbyn cymeradwyaeth i'w hail gynllun.
- Parhawyd â'r ymgyrch Cymraeg–Kids Soak It Up i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.
- Cydweithiodd y Prosiect i Wella Dilyniant mewn Addysg Gymraeg gyda dwy ysgol uwchradd yn siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin, ynghyd â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Y nod yw cryfhau'r dilyniant ieithyddol wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.
- Parhaodd y prosiect Addysg Drochi, gan gynyddu niferoedd y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Gymraeg.
- Dyrannwyd dros £2.8 miliwn mewn grantiau fel rhan o'r cynllun i hyrwyddo addysg Gymraeg.

Pobl Ifanc

- Dyrannwyd grantiau i'r Urdd, Gwobr Dug Caeredin, y Clybiau Ffermwyr Ifanc, a'r Mentrau

Education

- Three local education authorities received approval for their second Welsh Language Education Scheme; 14 local education authorities have now had their second schemes approved.
- The Cymraeg–Kids Soak It Up campaign continued to promote the advantages of Welsh language education.
- The Project to Improve Continuity in Welsh medium Education worked in partnership with two secondary schools in Ceredigion and Carmarthenshire, as well as primary feeder schools. The aim is strengthening linguistic continuity when transferring from the primary sector to the secondary sector.
- The Immersion Education Project continued, increasing the number of children receiving Welsh medium education.
- Over £2.8 million in grants was distributed as part of the scheme to promote Welsh medium education.

Young People

- Grants were allocated to the Urdd, the Duke of Edinburgh Award, Young Farmers' Clubs,

laith, i gynyddu cyfleoedd cymdeithasol pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Gweithredwyd ail flwyddyn Prosiect Cefnogi Arferion laith y Bwrdd, sydd wedi cydweithio â 10 ysgol i gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgolion hynny.
- Cynhaliwyd taith ysgolion i hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg, gan gyrraedd 8,000 o bobl ifanc mewn 20 ysgol uwchradd.
- Bu'r Cynlluniau Gweithredu laith, a'r Mentrau laith, yn rhoi pwyslais cynyddol ar dargedu ieuenctid, drwy drefnu gweithgareddau i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cymunedau

- Rhoddwyd cymorth grant i 21 Menter laith ledled Cymru.
- Parhawyd i gynnal 9 Cynllun Gweithredu laith i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig.
- Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol i drafod effaith mudoedd ar yr iaith Gymraeg. Sefydlwyd grŵp gweithredu i gynllunio rhaglen waith yn y maes.

and the Mentrau laith to increase social opportunities for young people to use Welsh.

- The Project to Support Young People's Language Use continued for a second year, and worked in partnership with 10 schools to increase the use of Welsh within those schools.
- A schools tour was held to promote Welsh language music, which reached an audience of 8,000 young people in 20 secondary schools.
- The Language Action Plans, and the Mentrau laith, organised activities targeting young people, and supported events to encourage them to use Welsh.

Communities

- Grant aid was provided to 21 Mentrau laith across Wales.
- The Board continued to maintain 9 Language Action Plans to increase the social use of Welsh in areas of significant linguistic importance.
- A national conference was staged to discuss the effects of migration on the Welsh language, and an action group was established to develop a work programme in this field.

Y Sector Preifat

- Lansiodd ymplant Polisi Iaith i gynorthwyo busnesau i fesur a rheoli eu defnydd o'r Gymraeg. Mabwysiadodd 70 busnes Bolisi Iaith o'r fath yn y 6 mis cyntaf.
- Gweithiodd y Bwrdd mewn partneriaeth â Chroeso Cymru i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y sector croeso a lletygarwch.
- Cyhoeddodd y Bwrdd ganllawiau a chynghor ymarferol i gynorthwyo busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol

- Cymeradwywyd 43 o Gynlluniau Iaith Gymraeg newydd; diweddarwyd 30 Cynllun; ac ymatebwyd i 188 adroddiad monitro ar Gynlluniau sydd eisoes yn weithredol. Erbyn hyn, mae dros 500 o Gynlluniau Iaith Gymraeg yn weithredol.
- Cyhoeddwyd llyfryn i'r cyhoedd i egluro'r drefn ar gyfer cwyno am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg, a ffurflen gwyno ar wefan y Bwrdd.
- Parhawyd â'r gwaith o annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy gydweithio â sefydliadau penodol.

The Private Sector

- A Language Policy template was launched to assist businesses to measure and manage their use of Welsh. 70 businesses adopted such Language Policies in the first 6 months.
- The Board worked in partnership with Visit Wales to promote the use of Welsh in the tourism and hospitality sector.
- The Board published advice and guidelines to assist businesses to increase their use of Welsh.

The Public and Voluntary Sectors

- 43 new Welsh Language Schemes were approved; 30 Schemes were updated; and we responded to 188 monitoring reports on Schemes that are operational. To date, over 500 Welsh Language Schemes are operational.
- A booklet was published for the public to explain to them how to complain about a lack of service through the medium of Welsh, and a complaints form was included on the Board's website.
- We continued to encourage the use of Welsh in the workplace by working in partnership with specific organisations.

- Parhawyd â'r ymgyrch 'Mae gen ti ddewis...' i annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

Partneriaid

- Dyrannwyd dros £4.5 miliwn mewn grantiau i bartneriaid y Bwrdd yn 2008-09.
- Dyrannwyd grantiau i Mudiad Ysgolion Meithrin, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru, Merched y Wawr, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ymysg eraill.
- Cydweithiodd y Bwrdd â'i bartneriaid i hyrwyddo ymgyrchoedd allweddol y Bwrdd, megis 'Mae gen ti ddewis...'

Ar Hyd ac ar Led

- Parhaodd y Bwrdd i hybu technoleg cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bod, gan gydlyn prosiectau i lwytho meddalwedd Cymraeg ar gyfrifiaduron cwmnïau sector preifat a sefydliadau gwirfoddol. Cynorthwywyd Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill i osod meddalwedd Cymraeg ar gyfrifiaduron eu staff.

- The 'Mae gen ti ddewis...' campaign continued to encourage Welsh speakers to use those Welsh language services which are available.

Partners

- Over £4.5 million in grant aid was distributed to the Board's partners in 2008-09.
- Grants were allocated to Mudiad Ysgolion Meithrin, the National Eisteddfod, Urdd Gobaith Cymru, Young Farmers Clubs, Merched y Wawr, the Association of Welsh Translators and Interpreters, and others.
- The Board worked in partnership with its partners to promote key campaigns, such as 'Mae gen ti ddewis...'

Far and Wide

- The Board continued to promote Welsh language technology that already exists, co-ordinating projects to load Welsh language software on the computers of private sector companies and voluntary sector organisations. We assisted the Welsh Assembly Government, and other organisations, to provide Welsh language software on computers used by their staff.

- Sefydlodd y Bwrdd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gyflwyno argymhellion i'r Gweinidog dros Dreftadaeth ynghylch sefydlu Canolfan Safoni Termau Genedlaethol.
- Cyhoeddwyd rhestr o dermau wedi'u safoni ym maes newid hinsawdd.
- Cyhoeddwyd canlyniadau Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.
- Lansiodd y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Iaithyddol (NPLD) ym mis Mehefin 2008. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gydlynu a chadeirio'r Rhwydwaith sy'n cael ei ariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- Parhaodd y Bwrdd i gydlynu gwaith is-grŵp iaith y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan sefydlu is-grŵp newydd i drafod deddfwriaeth.
- The Board established a Task and Finish Group to present recommendations to the Minister for Heritage on establishing a National Centre for the Standardisation of Terminology.
- A list of standardised terms in the climate change field was published.
- The results of the 2004-06 Language Use Surveys were published.
- The Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD) was launched in June 2008. The Board is responsible for co-ordinating and chairing the Network, which is funded by the European Commission.
- The Board continued to co-ordinate the British-Irish Council sub-group on language on behalf of the Welsh Assembly Government, establishing a new sub-group to discuss legislation.





Twf

Perswadio rhieni i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf yw pwrpas prosiect mwyaf y Bwrdd, Twf. Gwneir hynny mewn sawl dull, gan ddefnyddio rhwydwaith o staff ledled Cymru sy'n gweithio'n benodol ar y prosiect. Gwaith craidd y swyddogion hyn yw cysylltu â rhieni newydd a darpar rieni er mwyn cynnig cyngor a chefnogaeth ar drosglwyddo'r iaith, ac ar gynnal cartrefi Cymraeg a dwyieithog. Mae'r tîm hwn yn cynnal sesiynau â grwpiau bach, neu'n unigol â rhieni, gan hefyd weithio mewn partneriaeth â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd lleol. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn llu o ddigwyddiadau cymunedol er mwyn hyrwyddo'r cynllun.

Rhan allweddol o waith y prosiect yw gweithio trwy wahanol asiantaethau i drosglwyddo neges Twf i rieni a darpar rieni, gan bwysleisio manteision trosglwyddo'r Gymraeg drwy gynifer o sianelau â phosibl. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhyrchwyd ffolderi i'w defnyddio gan bob darpar fam yng Nghymru i gadw nodiadau beichiogrwydd. Mae'r ffolderi yn cyfleu manteision trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Yn ogystal â hyn, mae Twf wedi cylchredeg pecyn mamolaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r Gymraeg, i rai o

Twf

Persuading parents to transmit the Welsh language to the next generation is the purpose of the Board's largest project, Twf. This is done in a variety of ways, using a network of staff throughout Wales who work specifically on the project. The core work of these officers is to contact new parents and prospective parents to offer them advice and support on transmitting the Welsh language, and on maintaining Welsh language and bilingual homes. This team conducts sessions with small groups, or individually with parents, often in partnership with local midwives and health visitors. They also take part in a variety of community events to promote the project.

A key part of the project's work is working in partnership with different agencies to transmit Twf's messages to parents and prospective parents, emphasising the advantages of transmitting Welsh through as many channels as possible. During the reporting period, folders were produced that will be used by every expectant mother in Wales to keep pregnancy notes. These folders list the advantages of transmitting Welsh to their children. Twf has also produced a maternity pack, which contains information on language transmission, to some of

gyflogwyr mwyaf Cymru. Rhoddir y pecynnau i staff pan fyddant yn gadael eu gwaith i ddechrau cyfnod mamolaeth.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu Twf yn ymateb i argymhellion prosiect ymchwil a gynhaliwyd rhwng 2005 a 2008 i werthuso effaith y cynllun. O ganlyniad, mae Twf wedi cryfhau ei bartneriaethau gyda'r Mentrau Iaith, gan gynorthwyo'r Mentrau i weithredu'n fwy penodol gyda theuluoedd er mwyn pwysleisio manteision trosglwyddo'r Gymraeg.

Llwyddodd Twf i brif-ffrydio'r negeseuon ynglŷn â manteision trosglwyddo'r Gymraeg trwy hysbysebu'n eang yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Lansiodd hysbyseb deledu 'Y Gymraeg – anrheg am byth' yn ystod Nadolig 2008, a hysbysebwyd negeseuon Twf yn eang ar y we.

Wales' largest employers. These packs will be distributed to staff when they leave work to start a period of maternity leave.

During the reporting period, Twf responded to the recommendations of a research project conducted between 2005 and 2008 to assess the project's effectiveness. As a result, Twf has strengthened its partnerships with the Mentrau Iaith, by assisting them to operate more effectively with families in order to emphasise the advantages of transmitting Welsh.

By advertising widely over the past year, Twf succeeded in promoting the advantages of transmitting Welsh in the home. A television advertisement – 'Pass on the gift of Welsh' – was launched at Christmas 2008, and Twf's messages were advertised extensively on the internet.



Y Gymraeg – anrheg am byth
Pass on the gift of Welsh

twfcymru.com



Amelia Kelly
Ysgol Plas Coch
Wrecsam_Wrexham

Addysg

Mae'r ysgol yn cynhyrchu dwywaith cymaint o siaradwyr Cymraeg â'r cartref. Felly, unwaith eto eleni, mae cryfhau ac ymestyn addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn allweddol i waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg. Parhawyd â'r gwaith o gadw gorolwg strategol o'r maes drwy ddylanwadu ar faterion polisi, marchnata addysg Gymraeg a datblygu prosiectau gweithredol allweddol.

Mae yna ddwy ffordd o ddod yn siaradwr Cymraeg: dysgu'r iaith gartref drwy gyfrwng y teulu, neu ei dysgu drwy gyfrwng addysg – yn yr ysgol, neu fel oedolyn. Yr ail gyfrwng sydd yn bennaf cyfrifol am y cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymysg plant oed ysgol dros y degawdau diweddar. Cred y Bwrdd yn bendant mai'r blynyddoedd cynnar yw'r cyfnod rhwyddaf i ddysgu iaith ynddo.

Parhaodd gwaith statudol y Bwrdd i ddwyn ffrwyth yn ystod y cyfnod adrodd. Gwelwyd 3 awdurdod addysg lleol yn llunio ail Gynllun Addysg Gymraeg gan ddilyn canllawiau diwygiedig y Bwrdd. Bellach mae 14 awdurdod wedi derbyn cymeradwyaeth i'w hail Gynllun. Mae'r Cynlluniau hyn yn

Education

The education system produces twice as many Welsh speakers as the home. Therefore strengthening and expanding Welsh medium education has been an essential part of the Board's work to promote and facilitate the use of the Welsh language again this year. The Board continued to keep a strategic overview of the field through influencing policy decisions, marketing Welsh language education, and developing key operational projects.

There are two ways of becoming a Welsh speaker: learning the language at home in the family, or learning it through education – in school, or as an adult. The second of these is principally responsible for the significant increase in the number of Welsh speakers among children of school age over the past few decades. The Board believes that the early years is the best period for learning the language with ease.

The Board's statutory work continued to prosper during the reporting period. Three local education authorities prepared a second Welsh Education Scheme in line with the Board's revised guidelines. To date, 14 authorities have had their second Schemes approved. These Schemes place

gosod cyfrifoldeb ar y sefydliadau i nodi targedau penodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae cynllunio strategol a darparu lleoedd digonol ar gyfer disgyblion sy'n dymuno addysg Gymraeg yn elfen greiddiol o'r Cynlluniau Addysg Gymraeg. Felly, mae sicrhau tystiolaeth ddibynadwy ar gyfer y cynllunio hwn wedi dod yn agwedd gynyddol bwysig.

Cymeradwywyd Cynlluniau Iaith newydd 3 sefydliad addysgol a 3 Chynllun Iaith diwygiedig yn ystod y cyfnod hwn. Bellach, mae gan 11 o'r Cynghorau Sgiliau Sector Gynllun Iaith Gymraeg sydd wedi'i gymeradwyo, ac mae'r trafodaethau gyda Chynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector yn parhau. Cynhaliwyd cynhadledd gyda chynrychiolwyr o'r sector addysg bellach yn ystod y flwyddyn i drafod arfer da wrth gyflwyno a thrafod ymwybyddiaeth iaith gyda myfyrwyr a staff y sector hwn.

Hefyd, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, parhawyd â'r ymgyrch Cymraeg – Kids Soak It Up, sy'n hyrwyddo manteision addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r ymgyrch wedi cymryd camau pwysig i argyhoeddi rhieni bod addysg Gymraeg yn cynnig y cyfleoedd gorau posibl i'w plant.

a responsibility on authorities to provide specific targets for developing Welsh medium provision. Strategic planning, together with the provision of sufficient places for those pupils who desire Welsh medium education, is a key element of these Welsh Education Schemes. As a result, ensuring that reliable evidence is available to support this planning work has become an increasingly important aspect.

We approved new Language Schemes for 3 educational establishments and revised Language Schemes for another 3 establishments during this period. To date, 11 of the Skills Sector Councils have an approved Welsh Language Scheme, and discussions with the League of Skills Sector Councils are continuing. A conference was held with representatives from further education establishments during the year, to discuss best practice when presenting and discussing language awareness with students and staff within the sector.

Also, for the fourth year running, work continued on the Cymraeg – Kids Soak It Up campaign, which promotes the advantages of Welsh medium education in the early years. The campaign has taken important strides to persuade parents that Welsh medium education provides the best possible opportunities for

Cynhaliwyd yr ymgyrch mewn 15 sir, lle trefnwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gyfer rhieni a darpar rieni.

Yn ogystal, hon oedd ail flwyddyn y Prosiect i Wella Dilyniant mewn Addysg Gymraeg rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Amcan y prosiect yw gweithio gyda phenaethiaid, llywodraethwyr, athrawon, rhieni a disgyblion er mwyn cryfhau dilyniant ieithyddol wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Bu'r cwmni sydd yn cynnal y gwaith maes ar ran y Bwrdd yn ymweld â dwy ysgol uwchradd yn siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin, ynghyd â'r ysgolion cynradd sydd yn eu bwydo. Bu'r prosiect hefyd yn cydweithio â nifer o ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Dyma oedd y chweched flwyddyn i'r Bwrdd weithredu prosiect Addysg Drochi ar gyfer dysgu iaith drwy ddulliau dwys. Bellach, mae tair ar ddeg o ysgolion uwchradd (ynghyd â'r 115 ysgol gynradd sy'n eu bwydo), a dwy ysgol gynradd arall wedi cymryd rhan yn y prosiect. O ganlyniad, mae dros 800 o ddisgyblion ychwanegol wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Comisiynwyd gwerthusiad o'r prosiect gan Lywodraeth y Cynulliad, a nododd yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008 fod y prosiect

their children. The campaign was held in 15 counties, where a variety of events were arranged for parents and prospective parents.

In addition, we completed the second year of the Project to Improve Continuity in Education between Key Stages 2 and 3. The project aims to work with heads, governors, teachers, parents and pupils to strengthen linguistic continuity between the primary and secondary sectors. The company that conducts field work on behalf of the Board visited two schools in Ceredigion and Carmarthenshire, as well as their feeder primary schools. The project also worked with several primary schools in Neath Port Talbot.

For the sixth year in succession, the Board managed the Immersion Education Project, for learning Welsh through intensive methods. There are now 13 secondary schools (and 115 primary feeder schools), and 2 other primary schools, included in the project. As a result, over 800 additional pupils have received Welsh medium education. An evaluation of this project was commissioned by the Welsh Assembly Government. The final report was published in October 2008, which concluded that the project

Cymraeg – kids soak it up



hwn yn berthnasol o ran cyflawni nod Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Yn ôl yr arfer, yn 2008-09, dyrannwyd grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae manylion pellach am y grantiau hyn yn Atodiad 2. Eu prif bwrpas yw datblygu gwasanaethau athrawon bro'r awdurdodau addysg lleol, a chyfrannu at ariannu Canolfannau i Hwyrddyfodiaid.

was relevant to achieving the Welsh Assembly Government's aim to create more Welsh speakers.

Once again, in 2008-09, grants were allocated to promote Welsh language education. Further details of these can be found in Annex 2. Their main purpose is to develop the 'athrawon bro' [community teachers] service of local education authorities, and to contribute towards the funding of Centres for Latecomers.

Pobl Ifanc

Mae hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc ym mhob agwedd ar eu bywydau yn flaenoriaeth bwysig iawn i'r Bwrdd, ac rydym wedi datblygu partneriaethau cryf gyda sefydliadau eraill sydd yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc, megis yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, a'r Mentrau Iaith. Rydym yn ariannu'r sefydliadau hyn trwy gyfrwng ein cynllun grantiau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gweithredwyd ail flwyddyn Prosiect Cefnogi Arferion Iaith y Bwrdd. Mae'r prosiect yn cydweithio gydag ysgolion i fanteisio ar botensial disgyblion hŷn i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd iaith disgyblion iau. Llwyddwyd i ymbweru'r disgyblion hŷn i drefnu a chynnal gweithgareddau i hybu defnyddio'r Gymraeg. Hyd yma cynhaliwyd prosiect mewn 10 ysgol yn y De-orllewin. Fel rhan o'r prosiect, rydym hefyd yn ceisio datblygu dull hwylus o fesur defnydd iaith disgyblion yn yr ysgol.

Mae prosiectau cerddoriaeth y Bwrdd yn dal i ffynnu. Trefnodd Cerdd Gymunedol Cymru nifer o gigs i gefnogi mudiadau a grwpiau cymunedol, a darparwyd cefnogaeth a chyngor i grwpiau ac artistiaid newydd drwy gyfrwng gweithdai a chyfleoedd i recordio.

Young People

Promoting the use of the Welsh language by young people in every aspect of their lives is a very important priority for the Board, and we have developed strong partnerships with other organisations who are working to promote the language among young people, such as the Urdd, Welsh Young Farmers' Clubs and the Mentrau Iaith. We fund these organisations through our grants scheme.

During the reporting period, the Board's Supporting Language Use Project continued for a second year. This project works in partnership with schools to take advantage of the potential offered by senior pupils to positively influence language use by younger pupils. The project empowered senior pupils to organise and host events to promote the use of Welsh. The project is held in 10 schools in the South-west so far. As part of the project, we are also in the process of developing a simple method for measuring the use of Welsh by pupils.

The Board's music projects continue to prosper. Community Music Wales organised several gigs to support community organisations and groups. Support and advice was also provided to new groups and artists, by means of workshops and recording opportunities.



urdd.org

Hefyd, trefnwyd taith ysgolion i roi blas ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg i 8,000 o bobl ifanc, mewn 20 o ysgolion ledled Cymru, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y disgyblion o raglenni cerddoriaeth Radio Cymru ac S4C.

Yn ogystal â hyn oll, bu'r Bwrdd yn cynnal ac yn cydlynu gweithgareddau amrywiol i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc yn eu cynefinoedd trwy gyfrwng Cynlluniau Gweithredu Iaith. Gwelwyd parhad ym mhwyslais y Mentrau Iaith ar waith ieuenctid yn lleol, wrth iddynt drefnu ystod eang o ddiwyddiadau i hybu defnyddio'r Gymraeg, megis perfformiadau, digwyddiadau cerddorol a chwaraeon. Bu'r Bwrdd hefyd yn cynorthwyo Clybiau Ffermwyr Ifanc ledled Cymru i drefnu gweithgareddau cyfrwng Gymraeg.

Also, a schools tour was organised to provide a taster of Welsh music to 8,000 young people, in 20 schools across Wales. The tour also increased awareness of music programmes on Radio Cymru and S4C.

In addition, the Board organised and co-ordinated a variety of events through the Language Action Plans to promote the use of Welsh amongst young people in their own communities. The Mentrau Iaith continued to organise events aimed at young people, such as musical performances and sporting events. The Board also assisted Young Farmers' Clubs across Wales to organise Welsh medium events.



Crefft Ymaflwyd trwy gyfrwng y Gymraeg
Martial Arts through the medium of Welsh



Cymraeg – Kids Soak it Up
Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf

Cymunedau

Mae'r Bwrdd yn credu'n gryf fod iechyd yr iaith ar lefel gymunedol yn greiddiol i'w dyfodol. Rydym yn cefnogi'r Gymraeg yn y gymuned yn bennaf drwy ariannu gwaith y Mentrau Iaith drwy grant; drwy gynnal yn uniongyrchol Gynlluniau Gweithredu Iaith mewn 9 ardal; a thrwy gefnogi amryfal brosiectau cymunedol eraill.

Mentrau Iaith

Mae 21 Menter Iaith bellach yn weithredol ymron ym mhob rhan o Gymru, ac mae'r Bwrdd yn cyfrannu'n helaeth at eu hariannu. Mae'r cyswllt rheolaidd drwy ein staff rhanbarthol a chenedlaethol wedi sicrhau perthynas agos gyda'r Mentrau Iaith yn ystod y cyfnod. Yn ogystal â chefnogaeth ariannol, mae'r Bwrdd yn darparu cymorth ymarferol drwy gyfrwng rhaglen hyfforddi swyddogion y Mentrau i sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol ag arferion da. Mae cyswllt cyson wedi ei feithrin hefyd wrth i'r Mentrau gynorthwyo'r Bwrdd ag ymgyrchoedd penodol megis Cymraeg – Kids Soak It Up. Bu'r Mentrau hefyd yn brysur yn cynnal cystadlaethau lleol a rhanbarthol ar gyfer Brwydr y Bandiau. Dyma bartneriaeth rhwng yr holl Fentrau Iaith ac C2 Radio Cymru ar gyfer grwpiau ifanc.

Communities

The Board believes strongly that the health of the language on a community level is vital to its future. We support our Welsh language communities mainly by funding the work of Mentrau Iaith through grants; by directly maintaining Language Action Plans in 9 different areas; and through supporting various community based projects.

Mentrau Iaith

There are now 21 Mentrau Iaith operating in almost every part of Wales, and the Board makes a substantial contribution towards their funding. A regular interaction with our regional and national staff has ensured a close relationship with the Mentrau during the period. As well as financial support, the Board provides practical assistance by means of a training programme for Mentrau Iaith staff, which ensures that they employ good practice in carrying out their functions. A regular link has also been established to enable Mentrau Iaith to continue to assist the Board on specific campaigns such as Cymraeg – Kids Soak It Up. The Mentrau Iaith have also been active in holding local and regional competitions for Brwydr y Bandiau [The Battle of the Bands]. This is a partnership between all the Mentrau Iaith and C2 Radio Cymru for young pop groups.

Cynlluniau Gweithredu iaith

Nod y Cynlluniau Gweithredu iaith yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig, drwy sefydlu a chydlynu partneriaeth ddeinamig o wirfoddolwyr lleol a sefydliadau sy'n gweithio yn yr ardal. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd swyddogion y Cynlluniau Gweithredu iaith mewn 9 ardal o Gymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol ac unigolion o'r gymuned leol i weithredu cynlluniau amrywiol er lles y Gymraeg. Fe'u lleolir yn Abergwaun, Aberteifi, Rhydaman, Corwen, Rhuthun, Llanrwst, Amlwch, Machynlleth, a Gwauncaegurwen.

Cynhaliwyd adolygiadau cynnydd yng Nghorwen, Llanrwst, Bangor, a Rhydaman yn ystod y flwyddyn, a bu hyn yn sail i edrych o'r newydd ar weithredu pellach yn yr ardaloedd hynny i'r dyfodol.

Mewnfudo ac allfudo

Mae ein hymchwil yn dangos fod allfudo o'n cymunedau Cymraeg, a mewnfudo iddyn nhw, yn cynnig un o'r heriau mwyaf i barhad a thwf y Gymraeg. Mae'n anorfod, felly, wrth drafod cynllunio ieithyddol cymunedol ein bod yn wynebu'r her mae mudo yn ei chynnig i ni wrth geisio

Language Action Plans

The aim of the Language Action Plans is to increase the community use of the Welsh language in areas of special linguistic significance, by co-ordinating a dynamic partnership of local volunteers and organisations working in the area. During the year, Language Action Plan officials were based in 9 areas in Wales, and they continue to work in close partnership with key partners and individuals to operate a variety of projects in support of the Welsh language. They are based in Fishguard, Cardigan, Ammanford, Corwen, Rhuthun, Llanrwst, Amlwch, Machynlleth, and Gwauncaegurwen.

During the reporting period, progress reviews were conducted in Corwen, Llanrwst, Bangor and Ammanford. These allowed us to plan our future action in these areas.

Immigration and emigration

Our research indicates that migration from Welsh language communities, and immigration to these communities, provide one of the biggest challenges to the continuity and growth of the Welsh language. It is therefore unavoidable, when discussing community language planning, that we face the challenges presented by

diogelu'r Gymraeg fel iaith fyw yn gymunedol.

Yn Ionawr 2009, bu'r Bwrdd yn gyfrifol am ysgogi'r drafodaeth ynglŷn â'r pwnc hwn drwy drefnu cynhadledd genedlaethol er mwyn hwyluso trafodaethau rhwng Gweinidogion y Llywodraeth, academyddion, grwpiau pwyso a phobl sy'n gweithio ym meysydd tai, cynllunio a datblygu cymunedol. Canolbwyntiodd y gynhadledd ar adfywio cynaliadwy, agweddau mewnfudwyr at ddwyieithrwydd, a dyfodol ein cymunedau Cymraeg yng nghyd-destun tai, iaith a gwaith. O ganlyniad uniongyrchol i'r gynhadledd, sefydlwyd grŵp gweithredu o dan arweiniad Catherine Rees, Aelod o'r Bwrdd, gyda'r dasg o lunio rhaglen o brosiectau ymarferol a fydd o fudd i'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny lle mai mudoedd yw'r bygythiad mwyaf i'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

migration, as we seek to secure Welsh as a living community language.

In January 2009, the Board took responsibility for stimulating discussions on migration by arranging a national conference to facilitate discussions between Government Ministers, academics, pressure groups and professionals from the housing, planning and community development fields. Among other things, the conference focused on sustainable regeneration, the attitudes of immigrants towards bilingualism, and the future of our communities in respect of housing, language and employment. As a direct consequence of the conference, an action group has been convened under the leadership of Catherine Rees, a Member of the Board, which is tasked with forming a programme of practical projects that will assist the Welsh language in areas where migration offers the biggest threat to Welsh as a community language.

Sainsbury



Y Sector Preifat

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat wedi datblygu'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Bwrdd wedi cefnogi hyn drwy gynyddu'n sylweddol ei waith â busnesau.

Yn ystod 2008-09 lansiodd y Bwrdd Ddempted Polisi Iaith i helpu busnesau i fesur a rheoli eu defnydd o'r Gymraeg. Yn ystod y 6 mis ers lansio'r cynllun, mae mwy na 70 o fusnesau wedi ffurfioli eu hymrwymiad tuag at y Gymraeg trwy fabwysiadu Polisi Iaith. Atgyfnerthodd y Bwrdd y gwaith hwn trwy barhau â chynllun i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan staff a chwsmeriaid. Fe ymwelodd Taith Iaith Gwaith â thros 20 o leoliadau ar draws Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag archfarchnadoedd a chanolfannau siopa i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff a chwsmeriaid.

Bu'r Bwrdd yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth i'r sector lletygarwch a chroeso, a hynny mewn partneriaeth â Chroeso Cymru. Am y tro cyntaf, mae'r Gymraeg yn bresennol yng nghynlluniau marchnata a gwella ansawdd y Llywodraeth ar gyfer y diwydiant croeso yng Nghymru.

The Private Sector

The use of Welsh within the private sector has developed greatly over the past few years, and the Board has supported this by significantly increasing its work with businesses.

During 2008-09 the Board launched a Language Policy Template to help businesses measure and manage their use of Welsh. During the 6 months following the launch, over 70 businesses have formalised their commitment towards the Welsh language by adopting a Language Policy. The Board reinforced this work with its scheme to promote the use of Welsh by customers and staff. The Iaith Gwaith – Working Welsh tour visited over 20 locations across Wales, working in partnership with superstores and shopping centres to increase awareness and use of Welsh amongst staff and customers.

The Board paid particular attention to the hospitality and tourism sector during the reporting period, in partnership with Visit Wales. For the first time, a Welsh language presence can be seen in the Government's marketing and quality improvement plans for the tourism industry in Wales.


Parhaodd y Bwrdd â'r arfer o gyhoeddi canllawiau a chyngor ymarferol i fusnesau. Cyhoeddwyd y trydydd argraffiad o Ganllawiau Dylunio Dwyieithog y Bwrdd er mwyn rhannu arferion da â'r maes dylunio dwyieithog. Yn ogystal, cyhoeddwyd dogfen yn nodi'r Arferion Gorau ar gyfer Digwyddiadau Dwyieithog, dogfen ar Letygarwch Dwyieithog, a Chanllaw i Fân-werthwyr yng Nghymru.

The Board continued to publish practical advice and guidelines for businesses. The third edition of the Board's Bilingual Design Guidelines were published to disseminate good practice on bilingual design. In addition, a document was issued on Best Practice for Bilingual Events, a document on Bilingual Hospitality, as well as Guidelines for Small Retailers in Wales.



...sioner is someone
...children and young
...ts. They help improve
...ere to protect you
...h your potential.

Mae
sy'n
a'u
peth
i'th





Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol

Mae'r adran hon yn ymwneud â gwaith y Bwrdd yn y ddau sector uchod, ac yn arbennig â'i brif swyddogaeth statudol benodol, sef cadw gorolwg dros baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg.

Cynlluniau Iaith Gymraeg

Bellach, mae dros 500 o Gynlluniau Iaith yn weithredol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cymeradwyodd y Bwrdd 46 o Gynlluniau Iaith newydd. Mae rhestr gyflawn ohonynt yn Atodiad 3, ynghyd â'r 33 Cynllun a ddiweddarwyd. Ymatebwyd yn ogystal i 216 adroddiad monitro ar Gynlluniau sydd eisoes yn weithredol.

Derbyniwyd 106 cwyn gan y cyhoedd am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg gan gyrff cyhoeddus. Yn y mwyafrif o achosion, cafwyd cydweithrediad cyflym gan y sefydliadau cyhoeddus, a llwyddwyd i ddatrys yr achosion yn anffurfiol. Hefyd, cafodd rhai cwynion eu cau, gan nad oeddynt yn ymwneud â materion o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd. Agorwyd 8 ymchwiliad o dan Adran 17, Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993 yn ystod y flwyddyn. Roedd 6 ohonynt yn dilyn derbyn cwynion gan y cyhoedd, a 2 ar sail amheuan gan y Bwrdd. Cwblhawyd 4 adroddiad o dan Adran 17 y Ddeddf, a gwnaed argymhellion statudol mewn 3 achos. Gallwch weld yr adroddiadau

The Public and Voluntary Sectors

This section deals with the Board's work in these two sectors, and in particular with its main specific statutory function, which is to oversee the preparation and implementation of Welsh Language Schemes.

Welsh Language Schemes

There are now over 500 Schemes in operation. During the reporting period, the Board approved 46 new Schemes. There is a full list of these in Annex 3, together with the 33 Schemes that were updated. In addition, we responded to 216 monitoring reports on Schemes which are already operational.

106 complaints were received from the public regarding the lack of Welsh language services by public bodies. In the majority of cases, the organisations in question co-operated promptly with us, and the complaints were resolved informally. Some complaints were also rejected, as they were not within the Board's remit. We opened 8 investigations under Section 17 of the 1993 Welsh Language Act during the year. 6 of those investigations followed complaints by members of the public, and 2 were launched on the Board's own initiative. We completed 4 reports under Section 17 of the Act, and made statutory recommendations in 3 cases. The full reports can be

llawn ar ein gwefan, a cheir crynodeb ohonynt yn Atodiad 4.

Yn ystod y cyfnod adrodd, sefydlwyd Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol, sy'n cynnwys 5 Aelod o'r Bwrdd. Mae gan y Panel orolwg dros waith y Bwrdd yn y maes cwynion a chydymffurfiaeth.

Cyhoeddodd y Bwrdd lyfryn i'r cyhoedd sy'n egluro beth yw'r drefn ar gyfer cwyno am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg. Lanswyd ffurflen gwyno ar wefan y Bwrdd i gyd-fynd â hyn.

Y Gymraeg yn y gweithle

Mae defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn digwydd yn naturiol ac yn helaethach mewn rhai sefydliadau o'u cymharu ag eraill, ac mae hynny am sawl rheswm: ffactorau hanesyddol, demograffig, neu'r statws a roddir i'r Gymraeg. Dymuniad y Bwrdd yw gweld llawer mwy o gyfleoedd yn codi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Erbyn hyn, mae dros 15% o blant Cymru'n derbyn addysg ddwyieithog. Mae'n bwysig bod cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd ar ôl gadael yr ysgol.

Mewn seminar ar ddechrau 2009, cyhoeddodd y Bwrdd gyngor i

seen on the Board's website; they are also summarised in Annex 4.

During the reporting period, a Complaints and Statutory Investigations Panel was established, that includes 5 Board Members. The Panel has an overview of the Board's work in the field of complaints and compliance.

The Board published a booklet that explains the procedure for complaining about the lack of Welsh language services. An on-line form was published on the Board's website to coincide with this.

Welsh in the workplace

Using Welsh in the workplace happens more naturally and extensively in some organisations than in others. This can be for a variety of reasons: historical factors, demographic reasons, or simply the status accorded to the Welsh language. The Board's wish is to see more opportunities for people to use Welsh in the workplace. Currently, over 15% of children in Wales receive bilingual education. It is important to give them an opportunity to use Welsh in their everyday lives after leaving school.

In a seminar held at the beginning of 2009, the Board

gynorthwyo gweithwyr i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn nhrefniadau mewnol eu sefydliadau. Gweithiodd y Bwrdd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi Cymru, ar brosiectau gweinyddu mewnol. Ers cynnal y seminar, mae 20 o gyrff wedi cysylltu â'r Bwrdd yn gofyn i gael cydweithio ar brosiectau tebyg.

Marchnata gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

Mae'r Bwrdd wedi datblygu'r ymgyrch 'Mae gen ti ddewis...' i weithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn uniongyrchol i siaradwyr Cymraeg. Yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymgyrch, bu'r effaith yn gadarnhaol, gyda rhai sefydliadau yn gweld cynnydd o 50% yn y defnydd o'u gwasanaethau Cymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, datblygwyd diwyg newydd ar gyfer yr ymgyrch a chanllaw brand i hwyluso gwaith cyrrff unigol wrth iddynt fynd ati i farchnata eu gwasanaethau Cymraeg. Bu'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff i ddatblygu ymgyrchoedd penodol, er enghraifft, â Swyddfa'r Post a Chyngor Bro Morgannwg. I gyd-fynd â hyn, lanswyd ymgyrch hysbysebu

published guidelines to assist employees to use more Welsh within their organisations. The Board worked in partnership with the Countryside Council for Wales, and Her Majesty's Courts Service, on projects to increase the use of Welsh internally. Since the seminar, 20 organisations have contacted the Board, asking to co-operate on similar projects.

Marketing Welsh medium services

The Board has developed the 'Mae gen ti ddewis...' campaign, working in partnership with public bodies to promote Welsh language services directly to Welsh speakers. During the first year of the campaign, its effects were positive, with some organisations seeing an increase of 50% in the use of their Welsh language services.

During the reporting period, a new brand was developed for the campaign, and brand guidelines were distributed to assist organisations when planning how to market their Welsh language services. The Board worked in partnership with some organisations to develop specific campaigns, for example, with the Post Office and the Vale of Glamorgan County Council.

aml-gyfyngol, gan osod hysbysebion ar S4C ac ITV Cymru, mewn sinemâu, ac ar wefannau yn annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar wasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan gyrff cyhoeddus.

Y Sector Gwirfoddol

Parhaodd y Bwrdd i gydweithio ac annog mudiadau gwirfoddol i fabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd 22 Cynllun Iaith newydd a diwygiedig gan gyrff yn y sector.

Cyfrannodd y Bwrdd at Estyn Llaw, prosiect sy'n hyrwyddo dwyieithrwydd yn y trydydd sector.

Cynhaliwyd seminar a sesiwn hyfforddi yn y Senedd yng nghwmni'r Gweinidog dros Dreftadaeth. Nod y digwyddiad oedd cynorthwyo cyrff i esblygu eu darpariaeth Cymraeg trwy ddatblygu Cynlluniau Iaith. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant ar weithredu Cynlluniau Iaith ar gyfer sawl elusen, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ac Ymddiriedolaeth Shaw.

To coincide with this, a multi-media advertising campaign was launched on S4C, ITV Wales, in cinemas, and on a variety of websites, to encourage Welsh speakers to use Welsh language services offered by public bodies.

The Voluntary Sector

The Board continued to collaborate with, and encourage voluntary organisations to adopt Welsh Language Schemes. 22 new and revised Welsh Language Schemes were approved within the sector.

The Board again contributed towards Estyn Llaw, a project that promotes bilingualism in the third sector.

A seminar and training event was held in the Senedd, which was attended by the Minister for Heritage. The aim of the event was to assist voluntary bodies to evolve their Welsh language provision by developing a Welsh Language Scheme. In addition to this, language awareness sessions and sessions on implementing Welsh Language Schemes were held for several charities, including the National Autism Society and the Shaw Trust.



mae gen ti ddewis...

... i ffonio Cyngor Sir Powys yn **Gymraeg**

08456 027 054





Partneriaid

Mae'r Bwrdd bob amser wedi rhoi pwyslais mawr ar weithio mewn partneriaeth drwy gydweithio'n agos â'r sefydliadau unigol sy'n derbyn grant gennym, a thrwy bartneriaethau ehangach eraill. Agwedd bwysig ar hyn fu'r gwaith o ddatblygu'r berthynas â'n prif bartneriaid, gan gynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, y Mentrau Iaith, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Merched y Wawr, a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Er mwyn hwyluso'r cydweithio hwn, rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n partneriaid trwy gyfrwng Fforymau Sirol a chyfarfodydd cenedlaethol.

Ers y cychwyn bron, mae'r Bwrdd wedi bod â chyfrifoldeb dros ddyrannu grantiau mewn amryfal feysydd. Mae'r grantiau hyn wedi ariannu gwaith sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Bwrdd, gan gynnwys ariannu craidd i rai mudiadau sy'n bodoli i hyrwyddo'r iaith, grantiau i'r Papurau Bro, a chyfres o brosiectau arloesol. Mae'r Bwrdd hefyd wedi buddsoddi mewn arolygon a gwerthusiadau annibynnol er mwyn adolygu effeithiolrwydd y grantiau i'n prif bartneriaid, ac er mwyn cefnogi datblygiad gweithgareddau yn eu meysydd hwy. Mae rhestr lawn o'r grantiau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn Atodiad 2.

Partners

The Board has always emphasised working in partnership – by working closely with individual organisations that receive grants, and through other, wider partnerships. An important aspect of all this was developing a close working relationship with our main partners, including Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, the National Eisteddfod, the Mentrau Iaith, the Association of Welsh Translators and Interpreters, Merched y Wawr, and Young Farmers' Clubs. In order to facilitate this collaboration, we hold regular meetings with these partners at national and county level.

Early in its history, the Board accepted responsibility for allocating grants in several fields. These grants fund activities that supports the Board's strategic aims, including core funding for certain organisations which exist to promote the Welsh language, grants for Papurau Bro, and for a number of innovative projects. The Board has also invested in independent surveys and evaluations to review the effectiveness of the grants to our main partners, and to support the developments of activities in their respective fields. A full list of these grants for promoting the use of Welsh is in Annex 2.

Yn ystod y cyfnod adrodd cynorthwyodd y prif bartneriaid ag ymgyrch 'Mae gen ti ddewis...' y Bwrdd. Cylchredwyd hysbysebion electronig yr ymgyrch ar wefannau'r Mentrau Iaith, S4C, yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Cynyddodd hyn ymwybyddiaeth o'r ymgyrch, a bu'n gymorth mawr i'r Bwrdd wrth hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg.

During the reporting period, our main partners helped to promote the Board's 'Mae gen ti ddewis...' campaign. The campaign's electronic adverts were distributed on the websites of the Mentrau Iaith, S4C, the Urdd, and the National Eisteddfod. This increased awareness of the campaign, and was very useful for the Board in its work of promoting Welsh language services to Welsh speakers.



Merched y Wawr

Ymgyrch i gynorthwyo merched y trydydd byd
A campaign to help women in the third world

Ar Hyd ac ar Led

Technoleg Gwybodaeth

Cred y Bwrdd yn gryf fod yn rhaid i'r Gymraeg fod â lle haeddiannol ym myd technoleg gwybodaeth, a bod angen mynd i'r afael â'r maes mewn modd hirdymor. Nod ein dogfen strategaeth yn y maes yw normaleiddio sefyllfa'r iaith Gymraeg ym myd Technoleg Gwybodaeth. Mae llawer iawn o adnoddau cyfrifiadurol Cymraeg, yn rhyngwyneb ac yn offer gwirio sillafu a gramadeg, eisoes ar gael. Nod y Bwrdd yw sicrhau defnydd eang o'r rhain a datblygu'r maes hollbwysig hwn ymhellach.

Bu'r Bwrdd yn parhau â'r gwaith o hybu'r defnydd o dechnoleg Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, sicrhodd prosiect arloesol fod mwy o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y sectorau preifat a gwirfoddol yn defnyddio meddalwedd Cymraeg wrth eu gwaith yn ddyddiol. Yn ogystal â hyn, bu'r Bwrdd yn cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau eraill i sicrhau fod rhyngwyneb Cymraeg ar gael i'w staff ar gyfrifiaduron y gwaith.

Terminoleg a Chyfieithu

Gofynnwyd i'r Bwrdd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fyddai'n cyflwyno argymhellion i'r Gweinidog dros Dreftadaeth ynghylch sefydlu Canolfan Safoni Termau Genedlaethol ar y cyd

Far and Wide

Information Technology

The Board believes strongly that the Welsh language must have a rightful place in the field of information technology, and that we must adopt a long-term approach to the issue. The aim of our strategy document is to normalise the position of Welsh in IT. Many ICT resources, both interfaces and grammar and spell checkers, are already available in Welsh. The Board's aim is to ensure that these are widely used, and that this all-important field is further developed.

The Board continued to promote the use of Welsh language technology. During the reporting period, an innovative project ensured that more Welsh speakers employed in the private and voluntary sectors can use Welsh medium software in their workplace on a daily basis. In addition to this, the Board worked with the Welsh Assembly Government and other organisations to ensure that Welsh language interfaces are available to staff members at work.

Terminology and Translation

The Board was requested to establish a Task and Finish Group to present recommendations to the Heritage Minister on establishing a National Centre for the Standardisation of Terminology, in partnership between



rhwng y Bwrdd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mewn mannau eraill sydd â ieithoedd mewn sefyllfa debyg i'r Gymraeg, gwelir sefydlu canolfan o'r fath yn rhan hollbwysig o gynllunio ieithyddol. Edrychwn ymlaen at weithredu'r argymhellion hynny a sefydlu Canolfan Genedlaethol er mwyn cynyddu statws y Gymraeg.

Parhawyd â gwaith safoni termau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd. Cyhoeddwyd rhestr o dermau ym maes newid hinsawdd. Roedd y rhestr hon o dermau yn rhan o gyfraniad y Bwrdd at Weithgor Iaith Gymraeg Sector yr Amgylchedd a'r gobaith yw y bydd yn ymestyn y defnydd o'r Gymraeg i feysydd newydd. Yn ogystal â hyn, ym mis Chwefror 2009 cynhaliwyd seminar safoni termau i drafod datblygiadau ym maes termau a geiriadura. Cafwyd cyflwyniadau ynghylch gwaith y Bwrdd ym maes safoni enwau lleoedd a thanlinellwyd pwysigrwydd meddu ar dermau addas ar gyfer gweithio'n ddwyieithog.

Cychwynwyd ar y gwaith o lunio fersiwn digidol o Geiriadur yr Academi. Bydd cyhoeddi fersiwn digidol o'r Geiriadur yn gam eithriadol bwysig i hwyluso defnyddio'r Gymraeg, yn arbennig yn y gweithle dwyieithog. Erbyn diwedd

the Board and the Welsh Assembly Government. In other regions that have languages in a similar situation to Welsh, establishing such a Centre is seen as an integral part of language planning. We look forward to implementing those recommendations and establishing a National Centre in order to further increase the status of the Welsh language.

The Board continued its work of standardising terms during the reporting period. A list of terms was issued in the field of climate change. This list was part of the Board's contribution to the work of the Welsh Language Working Group for the Environment Sector. It is hoped that this work will extend the Welsh language into a field where it has been little used. In addition to this, in February 2009, a seminar on the standardisation of terms was held to discuss developments in the fields of terminology and lexicography. Presentations were made on the Board's work in the standardisation of place-names, and the importance of having suitable terms for working bilingually was also emphasised.

Work commenced on producing a digital version of the Welsh Academy English-Welsh Dictionary. The publication of a digital version of this dictionary will be a very important step in facilitating the use of Welsh, especially in the bilingual workplace. By the end of the financial

y flwyddyn roedd hanner cofnodion digidol y Geiriadur wedi'u gwirio.

Parhaodd gwaith cynghori ynglŷn ag enwau lleoedd, trwy gydweithio â thri awdurdod lleol yn eu cynghori ynghylch ffurfiau safonol enwau lleoedd yn eu hardaloedd.

Data ac Ymchwil

Mae sylfaen tystiolaeth gref yn hollbwysig ar gyfer cynllunio ein gweithgarwch fel Bwrdd. Mae ffrwyth cyfran helaeth o'n gwaith i'w weld yn barod ar ein gwefan, lle rydym wedi cronni stôr o fapiau, a dadansoddiadau treiddgar am yr iaith.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddodd y Bwrdd ganlyniadau Arolygon Defnydd Iaith 2004-06. Mae'r rhain yn rhoi diweddariad i ni am sefyllfa'r iaith ar lawr gwlad, a'r defnydd a wneir ohoni, ac yn rhoi sail gadarn i'r Bwrdd weithredu prosiectau ar sail tystiolaeth. Cyhoeddwyd hefyd ddiweddariad o'r Fantolen Ystadegol ar y Gymraeg, sy'n darparu'r ystadegau diweddaraf posib ar sawl agwedd ar y Gymraeg.

Mae'r Bwrdd yn parhau i ariannu doethuriaethau, er mwyn cryfhau ein sylfaen gwybodaeth mewn meysydd penodol, ac er mwyn meithrin gallu ymchwilwyr mewn cynllunio ieithyddol cymwysedig.

year, half the dictionary's entries had been verified in a digital format.

The Board continued to standardise place-names, and worked in partnership with three local authorities to advise them on standardised forms for place-names within their areas.

Data and Research

A strong evidence base is essential for the Board to be able to plan its activities properly. The results of a large part of our work can already be seen on our website, where we have accumulated a stock of maps and various other penetrating analyses on the language.

During the reporting period, the Board published the results of the 2004-06 Language Use Surveys. These provide us with an update of the health of the language, and the scale of its use. They also provide us with a strong information base upon which to base our projects. In addition, we published an updated version of The Vitality of Welsh: A Statistical Balance Sheet, which collates the latest statistics available on different aspects of the Welsh language, including its usage.

The Board continues to finance PhD studies, in order to strengthen our information base in specific fields, and to nurture the ability of researchers in the area of applied language planning.

Rhyngwladol

Bu'n flwyddyn hanesyddol i'r Bwrdd yn Ewrop wrth i ni lansio'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) ym Mrwsel ym mis Mehefin 2008. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gydlynu a chadeirio'r Rhwydwaith sy'n cael ei ariannu yn rhannol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bu hwn hefyd yn gyfle i ni lansio gwefan newydd y Rhwydwaith sy'n fforwm i rannu arferion da a gwybodaeth ym maes cynllunio ieithyddol ar lefel Ewropeaidd.

Dyma restr o aelodau llawn y Rhwydwaith ar 1 Ebrill 2009:

- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymru
- Kuzul Rannvroel Breizh/Conseil Régional de Bretagne, Llydaw
- Adran Cymunedau, Materion Gwledig a Gaeltacht/Foras na Gaeilge, Iwerddon
- Adran Polisi Iaith, a Gweinyddiaeth Addysg ac Ymchwil, Estonia
- EBLUL – (European Bureau for Lesser Used Languages)
- Xunta de Galicia, Galicia
- Provincie Fryslân, Friesland
- Linguamón/ Secretaría de Política Lingüística, Catalwnia
- Bord na Gàidhlig, Yr Alban

The International Scene

It has been a historic year for the Board on the European scene, which saw the Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD) being launched in Brussels in June 2008. The Board has responsibility for co-ordinating and chairing the Network, which is partly financed by the European Commission. This was also an opportunity to launch the Network's new website, which acts as a forum to share best practice in the language planning field on a European level.

Here is a list of the full members of the Network in 1 April 2009:

- Welsh Language Board, Wales
- Kuzul Rannvroel Breizh/Conseil Régional de Bretagne, Brittany
- Department for Communities, Rural Affairs and Gaeltacht/Foras na Gaeilge, Ireland
- Language, Research and Education Administration Department, Estonia
- EBLUL – (European Bureau for Lesser Used Languages)
- Xunta de Galicia, Galicia
- Provincie Fryslân, Friesland
- Linguamón/ Secretaría de Política Lingüística, Catalonia
- Bord na Gàidhlig, Scotland

- Kultura Saila, Eusko Jaurlaritz/Departamento de Cultura, Llywodraeth Gwlad y Basg
- Folktinget, Y Ffindir

Llwyddodd y Rhwydwaith i sefydlu tri phrosiect trawsffiniol yn y meysydd addysg cyn-ysgol, ieuenctid a'r cyfryngau. Mae'r prosiectau yn darparu fforwm i aelodau gymharu gwybodaeth ac arferion da yn y meysydd hyn a datblygu syniadau arloesol ar gyfer creu prosiectau newydd i hybu'r defnydd o'r ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol sy'n cael eu cynrychioli gan y Rhwydwaith.

Bu'r Rhwydwaith yn weithgar mewn datblygiadau o fewn sefydliadau'r UE ar bolisiau amlieithrwydd, ac yn ymateb iddynt. Llwyddodd y Rhwydwaith i ddwyn perswâd ar y Senedd Ewropeaidd i ddiwygio ei adroddiad ar amlieithrwydd er mwyn cynnwys mwy o gydnabyddiaeth i ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol.

Parhaodd y Bwrdd i gydlynu is bwyllgor Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Sefydlwyd is-grŵp newydd ym maes deddfwriaeth, sy'n ystyried y newidiadau cyffrous sy'n digwydd yn y maes hwn ar hyn o bryd yng Nghymru, yn yr Alban, ac yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Mae'r grŵp wedi sicrhau bod rhannu gwybodaeth ac arferion da yn y maes hwn yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

- Kultura Saila, Eusko Jaurlaritz/Departamento de Cultura, Basque Country Government
- Folktinget, Finland

The Network succeeded in establishing three cross boundary projects in the pre-school education, youth and media fields. These projects provide a forum for members to compare information and best practice in those fields, and develop innovative ideas in order to create new projects for promoting the use of those minority and regional languages represented by the Network.

The Network has been active in multilingual policy developments within the EU, and in responding to such policies. The Network succeeded in persuading the European Parliament to revise its report on multilingualism to give more recognition to regional and minority languages.

The Board continued to coordinate the British-Irish Council subcommittee on behalf of the Welsh Assembly Government. A new sub-group was established to discuss legislation, which considers current exciting legislative developments in Wales, Scotland, Northern Ireland and the Republic of Ireland. The group has ensured that sharing information and best practice in this field is a priority for the Council.



BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Y Tîm

Staff

Parhaodd y Bwrdd i esblygu ei strwythurau mewnol er mwyn ymateb i'r heriau newydd. Bellach, rhennir holl waith y Bwrdd rhwng nifer o dimoedd pwrpasol fel a ganlyn:

- Mae dyletswyddau statudol y Bwrdd o ran Cynlluniau Iaith a'r berthynas â'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yn gyfrifoldeb y Tîm Cynlluniau Iaith, o dan arweiniad Gwenith Price.
- Mae ymwneud y Bwrdd yn y gymuned, ei berthynas â sefydliadau sy'n bartneriaid ac â'r Mentrau Iaith, yn gyfrifoldeb y Tîm Datblygu Cymunedol, o dan arweiniad Sali Wyn Islwyn.
- Mae ymwneud y Bwrdd â chwmnïau preifat a busnes yn gyfrifoldeb y Tîm Sector Preifat a Busnes, o dan arweiniad Ifan Evans.
- Mae ymwneud y Bwrdd ym maes polisi, data, grantiau, technoleg iaith, a therminoleg a chyfieithu yn gyfrifoldeb y Tîm Polisi a Therminoleg, o dan arweiniad Gwyn Jones.
- Mae ymwneud y Bwrdd â Chynlluniau Addysg Gymraeg, addysg ddwyieithog yn gyffredinol, a'r maes ieuenctid

The Team

Staff

The Board continued to evolve its internal structures in order to respond to new challenges. The Board's work is shared between several teams, as follows:

- The Board's statutory duties relating to Welsh Language Schemes, and its relationship with the public and voluntary sectors is the responsibility of the Language Schemes Team, led by Gwenith Price.
- The Board's involvement in community developments, and with its partner organisations and the Mentrau Iaith, is the responsibility of the Community Development Team, led by Sali Wyn Islwyn.
- The Board's involvement with private companies and businesses is the responsibility of the Private Sector and Business Team, led by Ifan Evans.
- The Board's involvement in policy, research, data, grants, language technology, and in terminology and translation, is the responsibility of the Policy and Terminology Team, led by Gwyn Jones.
- The Board's involvement in Welsh Education Schemes, bilingual education generally, and with young people, is the

yn gyfrifoldeb y Tîm Plant a Phobl Ifanc, o dan arweiniad Gari Lewis.

- Rhoddir cymorth gweithredol a gweinyddol i'r timoedd uchod gan y Tîm Gwasanaethau Canolog, o dan arweiniad Enid Lewis.

Ar 31 Mawrth 2009, roedd 73.2 o staff (cyfartaledd llawn-amser) yn gweithio i'r Bwrdd.

Swyddfeydd rhanbarthol

Mae gan y Bwrdd swyddfeydd rhanbarthol yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon, yn ogystal â nifer o swyddfeydd lleol eraill ar draws y wlad lle mae swyddogion Cynlluniau Gweithredu Iaith yn gweithredu.

Gwybodaeth

